

**Adolygiad o'r gofal  
a ddarparwyd i gleifion ag  
anhawster dysgu neu broblem  
iechyd meddwl yn Ysbyty Iechyd  
Meddwl Annibynnol St Teilo,  
Goshen Street, Rhymney  
NP22 5NF**

**Dyddiad yr ymweliadau: 8 a 9 Chwefror 2012**

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Tŷ Bevan  
Parc Busnes Caerffili  
Heol y Fan  
CAERFFILI  
CF83 3ED**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn:** 029 20 928850  
**Ebost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 029 20 928877  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

# Cynnwys

## Rhif y Dudalen

1.	Cyflwyniad a Chefndir	1
2.	Ein Canfyddiadau	4
3.	Casgliad	13
4.	Gofynion	14
5.	Y Camau Nesaf	15

# 1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) sy'n rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru, ac mae'n cyflawni'r swyddogaeth honno ar ran Gweinidogion Cymru a ddynodwyd, trwy awdurdod Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fel yr awdurdod cofrestru ar gyfer Cymru.

1.2 Rhaid i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol<sup>1</sup> fod wedi eu cofrestru ag AGIC cyn iddynt gael darparu gwasanaethau yng Nghymru, ac er mwyn cofrestru, mae'n rhaid iddynt ddangos eu bod yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig. Mae mwy o wybodaeth am y Safonau a'r rheoliadau cysylltiedig ar gael yn [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk).

1.3 Ym mis Mai 2011, darlledwyd rhaglen yng nghyfres deledu ymchwiliol y BBC, *'Panorama'*, yn tynnu sylw at achosion o gam-drin unigolion ag anabledd dysgu a oedd yn byw mewn ysbyty annibynnol ym Mryste. Arweiniodd y rhaglen at bryder mawr ymhlith y cyhoedd, sy'n gwbl ddealladwy. O ganlyniad, penderfynodd AGIC ddwyn ymlaen ein rhaglen flynyddol o adolygiadau o ysbytai annibynnol sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer anawsterau dysgu ac iechyd meddwl.

1.4 Pwyslais yr adolygiadau oedd sicrhau bod unigolion a oedd yn defnyddio gwasanaethau o'r fath yn:

- Ddiogel.
- Derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol.
- Derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi eu hyfforddi'n briodol.
- Cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth.
- Cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol ag y bo modd.
- Cael gwneud dewisiadau, ac yn cael eu hannog i wneud hynny.

<sup>1</sup> Gofal iechyd annibynnol – gwasanaethau nad ydynt yn cael eu darparu gan y gwasanaeth iechyd.

- Cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu potensial.
- Cael defnyddio gwasanaeth eiriolwyr annibynnol a chael eu cefnogi i fynegi pryderon a chwynion.
- Cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â ffrindiau ac aelodau o'r teulu pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

1.5 Yn rhan o'n proses arolygu, rydym yn cynnal trafodaethau trylwyr, yn rheolaidd, â chleifion ac aelodau staff ac yn arsylwi'n ofalus yr ymadweithio rhwng cleifion a staff. Fe allem hefyd gyfarfod ag aelodau o'r teulu neu eiriolwyr cleifion i ofyn eu barn am y gofal a ddarperir. Yn ogystal ag adolygu pa mor briodol yw'r amgylchedd ffisegol, rydym yn gwerthuso safon amrywiaeth o ddogfennau gan gynnwys cynlluniau gofal cleifion, polisïau a gweithdrefnau, cynlluniau hyfforddiant a hyfforddiant sefydlu'r staff, a chofnodion cwynion, ataliad a digwyddiadau. Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg i gynnal y broses arolygu, gan gynnwys adolygwr â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983.

## St Teilo House

1.6 Cofrestrwyd ysbyty annibynnol St Teilo House am y tro cyntaf gydag AGIC ym mis Mawrth 2007, ac ar adeg ein hymweliad roedd wedi ei gofrestru i ddarparu triniaeth a gofal nyrsio i 24 o gleifion a oedd wedi cael diagnosis cychwynnol o salwch meddwl<sup>2</sup> ac a allai gael eu cadw dan ddarpariaethau Deddf Iechyd Meddwl 1983. Cambrian Healthcare Cyfyngedig yw darparwr cofrestredig yr ysbyty.

1.7 Cynhaliodd AGIC ymweliad dirybudd â St Teilo House ar 8 Chwefror 2012, a chynhaliwyd ymweliad arall ar 9 Chwefror 2012. Rhoddwyd adborth ar lafar i'r rheolwr cofrestredig ar ddiwedd pob diwrnod.

<sup>2</sup> Salwch meddwl – salwch yn y meddwl yw'r diffiniad diagnostig. Mae'n cynnwys cyflyrau cyffredin megis iselder a gorbryder, a chyflyrau llai cyffredin, megis sgitsoffrenia, anhwylder deubegynol, anorecsia nerfosa a dementia.

1.8 Nodir y canfyddiadau a ddeilliodd o'r ymweliadau hynny yn Adran 2 yr adroddiad hwn. Rydym wedi nodi meysydd o gryfder yn ogystal â meysydd y mae angen eu gwella. Mae Adran 3 yr adroddiad hwn yn rhestru gofynion AGIC o ran camau gweithredu.

## 2. Ein Canfyddiadau

2.1 Mae cylch gorchwyl yr adolygiad hwn wedi'i drefnu ar sail cyfres o gwestiynau sylfaenol yr ydym ni'n teimlo y byddai cleifion, eu perthnasau a chomisiynwyr gwasanaethau yn dymuno i ni eu gofyn. Er mwyn eu gwneud yn eglur ac yn haws cyfeirio atynt, rydym wedi nodi ein canfyddiadau o dan bennawd pob cwestiwn. Ystyrir y cwestiwn cyntaf:

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn ddiogel?'***

yn Adran 3 yr adroddiad hwn, lle'r ydym yn cyflwyno ein casgliadau a'r camau nesaf. Ni ellir ond ateb y cwestiwn hwn ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r cwestiynau isod:

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol?'***

2.2 Ar adeg ein hymweliadau, roedd 21 o gleifion yn derbyn gofal yn St Teilo House. Roedd ystafelloedd gwely'r cleifion ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf. Roedd yr holl ystafelloedd gwely yn cynnwys cyfleusterau ên-suite ac roedd y cleifion wedi dod â'u posteri a'u lluniau eu hunain gyda hwy, yn ogystal ag eitemau personol eraill. Roedd gan yr holl gleifion eu hallweddi eu hunain i'w hystafelloedd gwely, yn amodol ar asesiadau risg priodol, a gallent fynd iddynt ar unrhyw adeg. Roedd safon yr addurno yn yr ysbyty yn dderbyniol. Fodd bynnag, nodwyd bod dolen ffenestr mewn un ystafell ymolchi ac mewn ystafell weithgareddau a therapi galwedigaethol wedi torri neu ar goll. Trafodwyd hyn â'r rheolwr yn ystod yr ymweliad.

2.3 Roedd digon o seddau ar gael yn y lolfeydd a'r manau eistedd i'r holl gleifion, ac roedd y seddau wedi eu trefnu mewn ffordd anffurfiol, ac yn unol â dewis y cleifion, er mwyn creu awyrgylch cartrefol.

2.4 Roedd hysbysfyrddau ar gael mewn gwahanol rannau o'r ysbyty yn dangos canllawiau ar sut i wneud cwyn, sut i gael gafael ar wasanaeth eirioli a sut i gysylltu â gwasanaethau cymorth eraill. Roedd byrddau gwyn ar gael hefyd a oedd yn nodi ac yn dangos digwyddiadau cleifion a gweithgareddau mewnol ac allanol.

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi eu hyfforddi'n briodol?'***

## **Niferoedd y Staff**

2.5 Ar adeg ein hymweliad, roedd niferoedd y staff yn cyd-fynd â'r lefelau a oedd wedi eu nodi yn natganiad o ddiben y sefydliad. Roedd aelodau'r staff yn ddymunol ac yn gwrtais, ac yn sôn am eu hymroddiad i annog annibyniaeth a dewis i'r cleifion.

2.6 Gwelwyd tystiolaeth o gynllunio wrth gefn er mwyn sicrhau nad oedd absenoldeb staff wedi ei gynllunio neu heb ei gynllunio yn effeithio ar ofal y cleifion. Nid oedd staff asiantaeth yn cael eu cyflogi yn yr ysbyty. Mae'r ysbyty yn defnyddio staff banc<sup>3</sup>, ac mae hyn o gymorth i sicrhau dilyniant gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

2.7 Roedd tystiolaeth i ddangos bod y rheolwr yn hawdd mynd ato ac yn ymateb i gwestiynau a phryderon y staff yn dda, a bod y rheolwr yn credu bod treulio amser ymysg y staff pan fyddant wrth eu gwaith bob dydd yn bwysig.

2.8 Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn yr ysbyty am nifer o resymau, gan gynnwys ymagwedd gadarnhaol y rheolwr, a'r ffaith ei bod yn hawdd mynd at y rheolwr, a chyfleoedd i aelodau'r staff gydweithio, a thrwy hynny ddarparu'r driniaeth a'r gofal gorau posibl i'r cleifion. Fodd bynnag, dywedodd gweithwyr

<sup>3</sup> Staff a gyflogir gan sefydliad ar sail sesiynol pan fo angen, a hynny nid o anghenraid yn llawn-amser nac yn rhan-amser, ond mae'n bosibl y bydd rhai staff banc dan gontract yn rheolaidd.



cymdeithasol gofal wrthym eu bod yn teimlo y byddent yn elwa ar fynd i'r cyfarfodydd ward; ar adeg ein hymweliad, dim ond ychydig funudau yr oeddent yn eu cael yn y cyfarfodydd adeg newid sifft ar y wardiau.

## Hyfforddiant Staff

2.9 Cyfwelwyd 13 aelod o staff yn ystod ein hymweliadau, gan gynnwys staff parhaol a staff banc. Roedd rhaglen dreigl o hyfforddiant ar gael a oedd yn cynnwys hyfforddiant ar hunan-niweidio ac anhwylder personoliaeth. Nodwyd bod y staff wedi cael hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl, Gallu a Chydsynio, Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed, a Cholli Rhyddid. Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod rhaglenni hyfforddi'r staff yn adlewyrchu'r sgiliau sydd eu hangen ar y staff i fodloni anghenion presennol a disgwylid y cleifion. Cesglir y wybodaeth hon trwy gyfarfodydd arfarnu ac amcanion datblygu staff a thrwy oruchwylio staff.

2.10 Roedd grwpiau goruchwylio clinigol ac ymarfer myfyriol wedi eu sefydlu. Yn gyffredinol, roedd tystiolaeth o amgylchedd cefnogol i bob aelod o'r tîm amlddisgyblaethol. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd prosesau goruchwylio ac arfarnu ffurfiol wedi eu sefydlu ar gyfer staff banc. Argymhellir y dylai'r darparwr cofrestredig sefydlu prosesau goruchwylio ac arfarnu ar gyfer staff banc, gan ei bod yn bwysig i'r aelodau hyn o'r staff gael yr un hyfforddiant a chymorth i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf â'r staff parhaol.

2.11 Roedd y staff yn ymddangos yn hapus ac yn frwdfrydig, a buont yn siarad â ni am yr ethos cadarnhaol yn yr ysbyty yn sgil gwaith y rheolwyr a'r tîm amlddisgyblaethol. Roedd tystiolaeth glir o ymrwymiad i ddarparu gofal a thriniaeth sy'n canolbwyntio ar y cleifion.

## Polisïau a Gweithdrefnau

2.12 Roedd St Teilo House wedi sefydlu amryw o bolisïau a gweithdrefnau, ac roedd y staff yn gwybod ymhle yr oedd y polisïau a'r gweithdrefnau'n cael eu cadw. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd St Teilo House yn cydymffurfio â'i bolisïau a'i weithdrefnau ei hun o ran rhoi meddyginiaeth. Er enghraifft, nid oedd rhai taflenni rhoi meddyginiaeth wedi eu llofnodi, a phan nad oedd meddyginiaeth yn cael ei rhoi, nid oedd y rheswm am hynny wedi ei gofnodi. Argymhellir y dylai'r sefydliad adolygu, monitro a phrofi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y staff ynglŷn â pholisïau a gweithdrefnau'r ysbyty.

2.13 Gwelwyd tystiolaeth bod strwythurau cyfundrefnol a rheolaethol yn sail i drefniadau cyfathrebu ac atebolrwydd yr ysbyty, h.y.

- Adegau newid sifft ddyddiol ar gyfer y staff.
- Cyfarfodydd wythnosol a misol yn cynnwys y staff a'r cleifion.
- Cyfarfodydd rhanbarthol a chyfarfodydd uwch reolwyr.
- Roedd y Pennaeth Gofal i'w weld yn yr uned yn goruchwylio ac yn arsylwi agweddau, dulliau ac arferion gwaith y staff.

2.14 Roedd trefniadau a phrosesau llywodraethu clinigol ar waith yn yr ysbyty, ac roeddent yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd amlddisgyblaethol misol. Roedd canlyniadau'r cyfarfodydd hyn, h.y. p'un a oedd amcanion gofal cleifion yn cael eu bodloni ai peidio, yn cael eu diweddarau a'u cofnodi mewn dogfennau priodol.

2.15 Roedd cofnodion digwyddiadau, cwynion a damweiniau'n cael eu hadolygu a'u trafod. Roedd cynrychiolydd y cleifion yn cael gwahoddiad i ddod i'r cyfarfodydd hyn ac i gymryd rhan ynddynt am gyfnod o amser y cytunwyd arno i drafod unrhyw bryderon gan gleifion ac i fynegi barn y cleifion. Roedd hyn yn rhoi cyfle i gynrychiolydd y cleifion fynegi unrhyw sylwadau a/neu bryderon oedd gan y cleifion, a sicrhau cyfrinachedd i'r cleifion ar yr un pryd.

2.16 Yn gyffredinol, cafwyd bod cwynion yn cael eu cofnodi a'u rheoli'n dda, ac yr ymchwilir yn dda iddynt. Roedd y camau gweithredu, y canlyniadau a'r 'gwersi a ddysgwyd' o gwynion wedi eu cofnodi'n eglur. Roedd dwy gŵyn ffurfiol wedi eu derbyn yn ystod y deuddeg mis cyn ein hymweliad.

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth eu hunain, eu cynorthwyo i fod mor annibynnol ag y bo modd, ac yn cael gwneud dewisiadau ac yn cael eu hannog i wneud hynny?'***

## **Adolygiad o Ddogfennau Cynllunio Gofal**

2.17 Adolygwyd y dogfennau cynllunio gofal, ac roedd yn amlwg bod y cleifion yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio gofal. Roedd dewisiadau ac anghenion y cleifion wedi eu cofnodi, a gwelwyd bod newidiadau i gynlluniau yn cael eu trafod â'r cleifion. Roedd y cleifion wedi llofnodi eu cynlluniau gofal ac roeddent ar gael iddynt pe byddent am eu gweld. Roedd perthnasau yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio gofal pan oedd hynny'n bosibl.

2.18 Roedd y cleifion yn cael eu cynnwys hefyd mewn trafodaethau ward wythnosol, ac roedd eu sylwadau a'u pryderon ynglŷn â chanlyniadau/amcanion gofal a thriniaeth unigol felly'n cael eu nodi.

2.19 Roedd amryw o wahanol fathau o asesiadau risg cleifion unigol ar gael, a nodwyd bod y rhain wedi eu monitro a'u diweddarau'n rheolaidd o ran y gofal a'r canlyniadau i'r cleifion.

2.20 Pan oedd hynny'n bosibl, roedd y cleifion yn cyfrannu at wneud penderfyniadau ynglŷn â meddyginiaeth. Roedd y canlyniadau, y risgiau posibl a'r sgil-ffeithiau'n cael eu trafod â hwy ac yn cael eu hegluro'n llawn iddynt.

2.21 Roedd meddygon teulu, deintyddion, optegwyr a chiropodyddion ar gael i'r cleifion cyn ein hymweliad. Roedd y Clinigydd Cyfrifol wedi bod mewn cysylltiad â'r meddygfeydd lleol i sefydlu strwythur cydgysylltu ffurfiol ar gyfer hybu a gwella llwybrau gofal sylfaenol i'r cleifion yn yr ysbyty. Disgwylir y bydd y berthynas hon â Gofal Sylfaenol hefyd o gymorth i'r staff ddatblygu sgiliau ychwanegol a fydd yn fuddiol i'r cleifion. Mae triniwr gwallt sy'n ymweld â'r ystafell trin gwallt mewnol ar gael i'r cleifion. Gall y cleifion hefyd ddefnyddio'u harian eu hunain.

2.22 Cynhelir archwiliadau o ddogfennau gofal y cleifion o ran ansawdd y triniaethau a'r gwasanaethau a ddarperir yn yr ysbyty. Roedd dwy ffeil cleifion yn cael eu hadolygu bob mis gan aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol, er mwyn sicrhau bod yr holl ddogfennau'n cael eu cwblhau fel sy'n ofynnol ac yn briodol, h.y. bod cofnodion dyddiol gofal a thriniaeth y cleifion yn cael eu cwblhau a bod yr amcanion gofal yn cael eu hadolygu gyda'r cleifion. Roedd y tîm amlddisgyblaethol yn cynnal rhaglen gynhwysfawr o adolygiadau cynllunio gofal cleifion bob tri mis ar sail cylchdro. Mae'r adolygiadau hyn yn ystyried pob agwedd ar driniaeth a gofal y cleifion unigol.

## **Dull Rhaglen Ofal**

2.23 Dywedodd y Clinigydd Cyfrifol fod yr ysbyty wedi ymrwymo i gynnwys y cleifion cymaint â phosibl yn y broses o gynllunio i'w rhyddhau. Roedd y Dull Rhaglen Ofal yn ganolog i'r cynlluniau rhyddhau, ac roedd pob aelod o'r tîm amlddisgyblaethol yn rhan o'r broses. Roedd y Therapydd Galwedigaethol yn helpu'r cleifion i greu eu llyfryn rhyddhau eu hunain a oedd yn cynnwys atebion i gwestiynau cyffredin a rhestr o rifau cyswllt defnyddiol, megis Nwy Prydain, a oedd wedi eu nodi'n eglur.

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu potensial?'***

## Gweithgareddau'r Cleifion

2.24 Trafodwyd amrywiaeth o faterion â'r cleifion, gan ganolbwyntio ar p'un a oeddent yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cynorthwyo'n briodol. Yn gyffredinol, roedd y cleifion yn teimlo'u bod yn cael gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u trefn ddyddiol a'u gweithgareddau ac roeddent yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cynorthwyo'n briodol gan staff yr ysbyty.

2.25 Roedd rhaglen yn nodi'r amrywiaeth o weithgareddau a oedd ar gael i'r cleifion yn cael ei harddangos, a gwelwyd tystiolaeth o weithgareddau strwythuredig ar gyfer grwpiau ac unigolion. Roedd rhaglen o weithgareddau unigol wedi ei nodi yng nghynlluniau gofal y cleifion, a gwelsom fod dewisiadau'r cleifion yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd y cleifion. Roedd cofnodion yn cael eu cadw yn nodi rhan y cleifion mewn gweithgareddau a digwyddiadau. Ar adeg ein hymweliadau, roedd y cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrllon.

2.26 Roedd yr ysbyty yn cyflogi nifer sylweddol o therapyddion galwedigaethol. Gwelwyd tystiolaeth bod y rhaglen weithgareddau yn adlewyrchu anghenion, dymuniadau a hoff a chas bethau'r cleifion. Roedd y cleifion yn cael cyfarfodydd dyddiol ac wythnosol lle roedd eu sylwadau a'u pryderon yn cael eu trafod. Fodd bynnag, dywedodd un claf fod gweithgareddau'n cael eu canslo weithiau os nad oedd staff ychwanegol ar gael i gynnal arsylwadau mwy manwl. Roedd seicolegydd newydd llawn-amser wedi dechrau cael hyfforddiant sefydlu yn yr ysbyty'n ddiweddar. Ar ôl i'r seicolegydd gwblhau'r hyfforddiant hwn, bydd mwy o gefnogaeth a chymorth seicolegol ar gael i'r cleifion.

## Maeth

2.27 O ran diet a maeth, gwelwyd bod dewisiadau'r cleifion yn cael eu bodloni. Roedd y cleifion yn cael cyfle i siopa am eu bwyd eu hunain, ei gadw, a'i goginio dan

oruchwyliaeth. Roedd amrywiaeth a dewis ar gael, ac roedd y cleifion yn gadarnhaol at ei gilydd ynglŷn ag amrywiaeth ac ansawdd y bwyd.

2.28 Roedd y cleifion yn cael gwneud eu diodydd eu hunain yn ôl yr angen, a hefyd yn cael prynu a chadw diodydd o'u dewis eu hunain.

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael defnyddio gwasanaeth eiriolwyr annibynnol ac a oeddent yn cael eu cynorthwyo i fynegi pryderon a chwynion?'***

## **Defnyddio Gwasanaethau**

2.29 Roedd y cleifion yn deall yn dda sut i godi pryderon neu wneud cwynion, ac roeddent yn gwybod hefyd sut i gael gafael ar wasanaethau eirioli. Roedd gwybodaeth am wasanaethau eirioli neu sut i wneud cwyn wedi ei harddangos i'r cleifion a'u perthnasau gael ei gweld.

2.30 Adolygwyd nifer o ddigwyddiadau a oedd wedi eu cofnodi yn ystod y deuddeg mis blaenorol, a oedd yn ymwneud â nifer o gleifion ac yn cynnwys amrywiaeth eang o ddigwyddiadau. Hunan-niweidio ac ymosod ar gleifion eraill a'r staff oedd y themâu mwyaf amlwg. Ni fyddai'r rhain yn cael eu hystyried yn themâu anghyffredin yn y grŵp cleifion hwn. Mae'r trafodaethau â'r staff ar ôl digwyddiadau o'r fath o gymorth i sicrhau bod *'gwersi'n cael eu dysgu'* a dylai hynny alluogi aelodau o'r tîm staff i adnabod y ffactorau a allai ysgogi digwyddiadau unigol. Dylid nodi hyn yn nogfennau gofal y cleifion, ac roedd hynny'n cael ei wneud.

2.31 Nodwyd nifer yr ataliadau a oedd wedi eu gwneud a'u cofnodi yn ystod y deuddeg mis diwethaf, a oedd yn ymwneud â 14 o gleifion unigol. Nid oedd yr un claf wedi bod yn rhan o ddeg neu fwy o ddigwyddiadau, h.y. gallai claf a/neu gleifion fod wedi eu hatal ar sawl achlysur rhwng un a naw o weithiau yn ystod cyfnod o ddeuddeg mis. Byddai hynny o fewn y ffiniau disgwylidig, yn dibynnu ar y grŵp cleifion.

2.32 Roedd digwyddiadau ac ymyriadau atal yn cael eu cofnodi gyda manylion am yr ymyriadau, h.y. dad-ddwysáu, camau gweithredu a chanlyniadau.

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â ffrindiau ac aelodau o'r teulu pan oeddent yn dymuno gwneud hynny?'***

## **Cymorth i Gleifion i Gadw Cysylltiad â Theulu a Ffrindiau**

2.33 Roedd ystafell ffôn ar gael, a hefyd, roedd cyfleusterau yn nerbynfa'r ysbyty ar gyfer plant sy'n ymweld. Roedd mannau eraill yn yr ysbyty lle y gallai'r cleifion gael sgysiau preifat gydag ymwelwyr. Pan fo'n briodol, caiff y cleifion ddefnyddio cyfrifiadur y ward, ond dywedodd y cleifion yr hoffent gael defnyddio mwy ar y rhynggrwyd er mwyn cadw mewn cysylltiad â pherthnasau a ffrindiau pell trwy e-bost a Skype. Roedd 19 o'r 21 claf a oedd yn yr ysbyty ar adeg ein hymweliadau yn dod o Loegr, a gallai hynny effeithio ar amllder cysylltiadau/ymweliadau teuluol, ac roedd hynny'n digwydd.

2.34 Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn gallu cadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u ffrindiau. Roedd teuluoedd yn ymweld â'r ysbyty, ac roedd rhai cleifion yn cael absenoldeb Adran 17<sup>4</sup>.

2.35 Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn teimlo'u bod yn gallu trafod pryderon a phroblemau ag aelodau'r staff.

<sup>4</sup> Absenoldeb Adran 17 – caniatâd ffurfiol i glaf a gedwir yn yr ysbyty i fod yn absennol am gyfnod o amser. Mae'r cleifion yn parhau i fod dan bwerau'r Ddeddf pan fyddant yn absennol a gellir eu galw yn ôl i'r ysbyty ar unrhyw adeg.

### 3. Casgliad

#### *'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn ddiogel?'*

3.1 Nodwyd un achos o dorri'r rheoliadau yn ystod ein hymweliad. Roedd yn ymwneud â diffyg cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau'r ysbyty o ran rhoi a chofnodi meddyginiaeth. Yn sgil ein hymweliad ar 8 Chwefror, adolygwyd y taflenni rhoi meddyginiaeth ac fe'u diweddarwyd gan y clinigydd cyfrifol pan oedd hynny'n briodol. Yn ogystal, cynhaliodd y rheolwr cofrestredig adolygiad o gymwyseddau nyrsys o ran rhoi meddyginiaeth. Bydd hon yn rhaglen dreigl a bydd yn cael ei gweithredu ar gyfer yr holl staff perthnasol, h.y. nyrsys cofrestredig. Bydd y rhaglen yn monitro p'un a yw polisïau a gweithdrefnau'r ysbyty yn cael eu dilyn o ran rhagnodi a chofnodi pryd y rhoddir meddyginiaeth, a'r rheswm dros beidio â rhoi meddyginiaeth.



## 4. Gofynion

4.1 Mae'r gofynion a nodir isod yn mynd i'r afael ag unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a nodwyd un ai o ganlyniad i'r arolygiad neu yn sgil gwybodaeth arall a dderbyniwyd gan ac ynglŷn â'r darparwr. Yr *'unigolyn cofrestredig'*, sydd yn ôl y ddeddfwriaeth yn cynnwys darparwr cofrestredig a/neu reolwr cofrestredig y sefydliad neu'r asiantaeth, sy'n gyfrifol am gyflawni'r gofynion hyn. Rhaid i'r unigolyn cofrestredig ddarparu cynllun gweithredu sy'n cadarnhau sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r camau gofynnol. Os bydd angen, bydd AGIC yn cymryd camau gorfodi i sicrhau y cydymffurfir â'r rheoliadau.

Safon Ofynnol Genedlaethol	Rheoliad	Canfyddiadau (Rhif y Paragraff)	Camau Gofynnol	Amserlen
Safon 15	Rheoliad 9(1)(i) a 15 (5)(a) a 19(2) (d)	2.12	Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r ysbyty o ran rhoi a chofnodi meddyginiaeth.	Ar unwaith a pharhaus.  Derbyniwyd cadarnhad ysgrifenedig ym mis Chwefror 2012 fod cynllun gweithredu a phroses archwilio ffurfiol, strwythuredig wedi eu sefydlu.  Cwblhawyd.

## 5. Y Camau Nesaf

5.1 Bydd AGIC yn cynnal rhagor o ymweliadau â St Teilo House, ac asesir cydymffurfiad â'r rheoliadau a'r cynllun gweithredu ymhellach.

5.2 Bydd angen i'r darparwr cofrestredig anfon cynllun gweithredu wedi ei ddiweddarau i AGIC sy'n mynd i'r afael â'r holl faterion rheoleiddio a nodir yn yr adroddiad hwn, a hynny o fewn pythefnos.